Llyfrgell Genedlaethol Cymru
The National Library of Wales
Aberystwyth

Cylchgronau Cymru
Welsh Journals Online

Awdur Author	Dafydd Jenkins.
Teitl erthygl Article title	"Deddfgrawn William Maurice"
Teitl cylchgrawn Journal title	*Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru* *National Library of Wales journal*
Rhifyn Issue	Cyf. 2, rh. 1 (Haf 1941), p. 33-36.
url	

Crëwyd a chyhoeddwyd y fersiwn digidol hwn o'r cylchgrawn yn unol â thrwydded a roddwyd gan y cyhoeddwr. Gellir defnyddio'r deunydd ynddo ar gyfer unrhyw bwrpas gan barchu hawliau moesol y crewyr.

The National Library of Wales has created and published this digital version of the journal under a licence granted by the publisher. The material it contains may be used for all purposes while respecting the moral rights of the creators.

JISC

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government

DEDDFGRAWN WILLIAM MAURICE[1]

Ymhlith y llawysgrifau a roddwyd yn adnau i Lyfrgell Genedlaethol Cymru gan Syr H. Ll. Watkin Williams Wynn o Wynnstay yn 1934 y mae dwy gyfrol fawr wedi'u rhwymo mewn croen llo garw—Wynnstay 37, sy'n $11\frac{3}{4}'' \times 9\frac{1}{2}''$ a phum modfedd o drwch, a Wynnstay 38, sy'n $12\frac{3}{4}'' \times 8\frac{1}{4}''$ a phum modfedd o drwch. Y mae iddynt ddiddordeb arbennig am mai ynddynt hwy y ceir yr ymgais gyntaf, hyd y gwyddys, i ddosbarthu cynnwys llawysgrifau cyfraith Hywel. William Maurice, Llansilin, a luniodd y cyfrolau yn y blynyddoedd 1660–3; "y Deddfgrawn" neu "Corpus Hoelianum" oedd ei enw ef arnynt, ac o lawysgrifau Hengwrt yn bennaf y codwyd eu cynnwys ganddo ef a'i weision.

Copi a wnaed yn 1660 (ffolio 43 *verso*) dros William Maurice "p̄ amanuensem tyronem" (5v) o un o lawysgrifau John Jones o'r Gelli Lyfdy, yn awr Peniarth 224, yw cnewyllyn y gyfrol gyntaf. Ni bydd a wnelom ni â thudalennau 796 i 926 o Peniarth 224; sgrifennwyd hwy'n ddiweddarach na'r gweddill, oblegid ni cheir cyfeiriad o gwbl atynt yn "Byrddan y prif bynkiav" ar ddechrau'r llawysgrif, a chynhwysant destun Cymraeg o "Status Rhuddlan," a manion cyfreithiol ereill. Ond heblaw'r rhain, y mae'r llawysgrif yn cynnwys dau brif destun o'r cyfreithiau, a nifer o ychwanegiadau. Y mae testun tud. 1–423 yn cyfateb i eiddo'r llawysgrif Cotton Titus D. II yn yr Amgueddfa Brydeinig, a thestun tud. 424–751 i eiddo Peniarth 34; daw'r ychwanegiadau ar dudalennau 774–93 o lawysgrif Cotton Caligula A. III. Ai copīo'n syth o'r llawysgrifau hyn a wnaeth John Jones? Credaf iddo gopīo'r ddau destun (1–423 a 424–751) o lawysgrif yn llaw Roger Morris, nad yw'n awr ar gael, a'r ychwanegiadau'n syth o Cotton Caligula A. III. Dywed ef ar ddechrau'r llawysgrif iddo ei chodi "o lyfrev ynghar Risiart langfford o Drefalvn y Maelor y naill lyfr a ysgrifenasse Roesier Morys ar llall oedd hen lyfr memrwn a ysgrifenasse Jerwerth ap Madawg ap Rahawt ag ar ol llaw Roesier Morys ydd ysgrifennis i y llyfr hwnn ag a ysgrifennis y diffig oedd yn llaw Roesier Morys allan o law Jerwerth ap Madawg"; ac ar dud. 774, "Wrth keryddv y llyfyr hwnn a adysgrifennis i o law Rosier Morys wrth ddarn o hen lyfr memrwn yr hwn a esgrifenassei Jeworth ap Madawg o law rrvfeinaidd ag a weleis bot fy llyfr i yn ddiffygiol o swrn o bethev ar a oedd yn y llyfr hwn ag wrth hynny mi a ysgrifennis yma a oedd ddiffygiol or blaen." Gan hynny yr ychwanegiadau (774–793) yn unig a godwyd o'r "hen lyfr memrwn a ysgrifennase Jerwerth ap Madawg", a daeth y gweddill i gyd o lawysgrif Roger Morris.[2]

---

[1] (Dymunwn gydnabod dyled yr ysgrif hon i *Schedule* deipiedig y Llyfrgell o lawysgrifau Wynnstay, ac i gymorth parod Mr. Evan D. Jones. D.J.).

[2] Gwelodd Dr. Gwenogvryn Evans (*Rep.* i. 1047 *n*) mai Cotton Caligula A. III oedd ffynhonnell yr ychwanegiadau hyn—darnau sy'n nodweddiadol ohoni hi yw'r ychwanegiadau; a hi yn unig sy'n galw Iorwerth ap Madawg *ap Rahawt* ar ŵr a enwir gan amryw o'r llawysgrifau. Ond aeth Dr. Evans i gryn benbleth wrth geisio penderfynu pa lawysgrifau ereill a gopīodd John Jones. Dywed am dud. 1–423 o Peniarth 224 eu bod "except in the matter of orthography, a faithful transcript of MS. Titus D. II", ac am Peniarth 34 (*Rep* .i. 367) "a copy may be seen in Peniarth MS. 224, which states that this MS. was written by Roger Morys", fel pe credai mai Titus D. II oedd llyfr Iorwerth ap Madog, ac mai Peniarth 34 oedd llyfr Roger Morris. Ni all hynny fod yn gywir; llawysgrif o'r bymthegfed ganrif (nid o'r unfed ar bymtheg fel yr awgryma Dr. Evans) yw Peniarth 34, ac felly ni ddichon mai Roger Morris a'i sgrifennodd. Ymhellach, y mae'n glir oddi wrth gopi'r Deddfgrawn fod y testun *cyntaf* yn llyfr Roger Morris; *e.e.*, ceir nodyn gan William Maurice ar ddiwedd y copi hwnnw o'r testun cyntaf, "finis Cod. Rog. Mor." Ond ni chredaf fod yn gywir caselu oddi wrth hynny mai'r testun cyntaf yn unig oedd yn llyfr Roger Morris, gan fod William Maurice yn cyfeirio at y llyfr hwnnw sawl gwaith mewn nodiadau ar ei gopi o'r ail destun. Hefyd cawn ar dud. 770 o Peniarth 224 nodyn gan

Copïodd ysgrifennydd William Maurice o Peniarth 224 y ddau brif destun a'r ychwanegiadau, gan ddynwared ysgrifen a dull John Jones. Yna golygwyd y cyfan gan William Maurice ei hun. I ddechrau ceir yr ychwanegiadau (Wynnstay 37, 1–5); dodwyd dalennau gwyn rhwng dalennau'r copi, a chodi iddynt rai amrywiadau o lawysgrifau ereill, ond croesodd William Maurice y rhan fwyaf o'r copi a'r amrywiadau allan, gyda'r nodyn (1r) " Omnes has var. lect. reduxi ad propria Loc. compando & transcribendo ": y " Prolog ", sef y Rhaglith sydd ar ddechrau'r Llyfr Prawf yn Cotton Caligula A. III (A.L. i. 214), yw'r prif ddarn a adawyd. Yna ar ff. 6r, mae'r prif destun cyntaf yn dechrau, dan bennawd yn llaw William Maurice, " Cyfraith Howel Dda. yn dechreũ. Liber Alpha. incipt [*sic*] A Jove principiũ. Kyfraith Howel Dda ab Cadell." Ceir ar ymyl y dalennau eiriau arweiniol o'r testun; a rhwng y llinellau ac ar y rhyngddalennau amrywiadau o lawysgrifau ereill, y cyfeirir atynt wrth yr enwau a roddodd William Maurice arnynt.

Y mae i adrannau'r testun yn Peniarth 224 benawdau mewn ysgrifen frasach. Copïwyd y rheini yn Wynnstay 37; ond croesodd William Maurice drwy'r cyntaf ar ff. 6v, a nodi ar ymyl y ddalen, " Addit. p Jo. Jones, in Orig. hic & alibi desunt Summaria." Yr oedd William Maurice felly'n golygu ei gopi â llawysgrif Roger Morris o'i flaen, a honno heb gynnwys y penawdau. Ni ddilewyd y penawdau ereill, a daeth yr adrannau'n benodau, wedi'u rhifo o 1 i 117. Rhifwyd y dalennau hefyd; ond aed ar gyfeiliorn trwy neidio'n ôl o 39 i 30, ac yna gywiro'r ail 30–4 yn 40–4, nes bod dwy ddalen bob un yn dwyn y rhifnodau 35–44.

Mae'r testun Alpha yn gorffen ar waelod ff. 141v, gyda'r geiriau " Ag e velly tervyna llyfyr kyghawsedd." Copïodd y gwas nodyn John Jones, " Ag e velly tervyna llyfyr kyghawsed ar Dduw gwener y kroglwyth y //29// dydd o Vawrth en oedran Crist //1605/. Deo Gras." ar waelod y tudalen a thop ei dudalen nesaf, ac aeth ymlaen â'r ail destun o Peniarth 224. Ond gwahanodd William Maurice y ddau destun; ac yn dilyn 141v ceir testun a gopïwyd—efallai gan was arall—o lawysgrif Peniarth 40: *Kalan* yw enw William Maurice ar y llawysgrif a'r testun a godwyd ohoni. Lleinw'r testun drigain dalen—y rhai cyntaf wedi'u rhifo o 142 i 157, a'r lleill heb eu rhifo; mae dalennau rhwng dalennau'r testun, eithr heb ond ychydig iawn o ddarlleniadau.

Dechrau'r ail destun o Peniarth 224 ar ddalen sydd hefyd yn dwyn y rhifnod 142. Rhoddwyd yr enw " Llyfr Iorwerth ab Madog " ar y testun i ddechrau; a'i rannu'n 49 o benodau, yn ymestyn o 142r i 209 ac ymlaen dros 23 o ddalennau heb eu rhifo, gan ddiweddu ar ganol brawddeg. Ar gefn y ddalen honno ni cheir ond pennawd tudalen; ar y tudalen nesaf dri dyfyniad o lawysgrif arall; ac yna 49 o ddalennau gweigion cyn diwedd y gyfrol.

John Jones, " Sef a gefais ar ddolen or llyfyr vchot a esgrifennassei Rosie[r] Morys, henwev llyfrev kyfreithiev yr hen Vrvtanieid / / a messvr Terfynev / / a gwerth kroessev." Digwydd y darnau sy'n dilyn mewn amryw lawysgrifau, yn eu plith Peniarth 163; ac ar ddalen rydd yn Peniarth 163 ceir nodyn gan Dr. Evans yn cyfeirio at y darnau a gofyn " ? Whether Pen. 224 pp. 770–3 are copied from this MS. The above note is in the hand of Gr. Hiraethoc, not of ' Roger Morris ' but see MS 169 p. 277 ". Y mae Peniarth 163 yn cynnwys y testun o'r Cyfreithiau a geir yn Peniarth 34; ond yn ôl Dr. Evans, sgrifennwyd y testun yn gynharach na'r darnau o'r llawysgrif sydd yn llaw Gruffudd Hiraethog, a chan hynny'n rhy gynnar i fod yn waith Roger Morris. Mae Peniarth 169 yn llaw Roger Morris, ond ni chynnwys ond yr enwau llyfrau o'r darn sydd yn Peniarth 224, tud. 770–3, ac ni chynnwys destun o'r Cyfreithiau. Rhaid tybio felly fod John Jones wedi copïo'i destunau o lawysgrif sy'n awr ar goll, ond a gynhwysai'r holl ddarnau ar Peniarth 224, tud. 770–3, heblaw'r ddau destun yn llaw Roger Morris.

Cododd William Maurice amrywiadau o lawer llawysgrif i ryngddalennau'r copi yn 1662[1]; a phan gymharodd y copi hwn â Peniarth 34 yn 1663, gwelodd mai'r un oedd y testun, a newidiodd benawdau'r tudalennau o *Ior.* i *Bod*, sef yr enw a roesai ef ar Peniarth 34.[2] Hefyd rhoddodd ar ddechrau'r testun (142r) y teitl, " Llyfr Jorwerth ab Madog. ex codice Bod ", a lle y cafodd fod ei gopi ef yn anghytuno â Bod. newidiodd y copi. Ymddengys mai yn ddiweddarach wedyn y bu ef yn cymharu'r copi â llawysgrif Roger Morris; oblegid dywed ar ymyl 207v: " nid yw hyn hyd cap. 41 yn Bod " ac ychwanegir mewn orgraff wahanol, " nac yn λyfr Roger Morris ".

Codwyd yr amrywiadau ar y ddau destun o lawysgrifau Hengwrt yn bennaf; cawn gyfeiriadau at y llyfrau a gafodd gan William Maurice yr enwau Teg (yn awr Peniarth 32), Kalan (Peniarth 40), Lew (Peniarth 39), Adcyn (ail ran Peniarth 35), Colan (Peniarth 30), Befol (Peniarth 259a), Bod (Peniarth 34), Cyn (rhan gyntaf Peniarth 35), Frag (Peniarth 36c), a Beta (Peniarth 333), ac at " JJ al. cod." Yn ddigon rhyfedd, ni cheir ond un cyfeiriad at yr hynaf o holl lawysgrifau Cymraeg y Cyfreithiau, sef Llyfr Du'r Waun (Peniarth 29); a hwnnw'n gopi, ar ryngddalen fechan ychwanegol, gyferbyn â 43v, o'r darn (J. G. Evans, *Facsimile of the Chirk Codex*, 41) " Eman ellas elidir muhenuaur . . .". Mae'r copi hwn yn llaw Robert Vaughan, gyda nodyn gan William Maurice, " ex lyfr Du or Waun " ac eto, " Transcript. ex Archetypo per D Rob. Vachanum propria manu me presente. Guil. Mauricio ".

Ceir hefyd rai cyfeiriadau at un llawysgrif nad oedd yn llyfrgell Hengwrt, sef " lib. Mred ". Gwnaed y cyfeiriadau hyn yn ddiweddarach na'r lleill; mae'r inc o liw gwahanol, a gellir dangos mai'r llawysgrif a roddodd Meredydd Lloyd i William Maurice yn 1678, ac a ddefnyddiodd Moses Williams dan yr enw Ll., oedd " lib. Mred ".[4] Nid yw hon ar gael mwyach, a'r tebyg yw ei bod ar goll cyn amser Aneurin Owen, gan na ddefnyddiodd ef hi; fel y mae gwaetha'r modd, ychydig iawn o ddyfyniadau a godwyd ohoni.

Nid yw ail gyfrol y Deddfgrawn yn cynnwys y toreth amrywiadau a geir yn y gyfrol gyntaf, ond yn hytrach nifer o gopïau o wahanol lawysgrifau, gydag ambell ryngddalen ac ambell amrywiad. Y darnau a gafodd William Maurice mewn rhai llawysgrifau nad oeddynt yn cyfateb i ddim a gopïasai yn y gyfrol gyntaf a ffurfiodd yr ail; fel y gwelsom, cymharwyd y rhan fwyaf o'r llawysgrifau â'r gyfrol gyntaf yn 1662, ac ar ddechrau'r ail gyfrol ceir y nodyn " Cyfraith=lyfyr .i. est. Cymbro=nomia Guilhelmi Mauricij Lansilinensis, per Amanuensem transcript. A.D. 1662." Ceir yn y gyfrol y testunau hyn:

ff. 1–182r	" Trioedd Cyfraith y Cymmry gynt."
183	" Excerpta ex Lib. Frag."
185–254	" Lib. Beta ".
255–88	" Llyfr A[s] " (Peniarth 175).

---

[1] Gweler y gwahanol lawysgrifau, lle ceir nodiadau yn llaw William Maurice, *e.e.* yn Peniarth 32: " Lib. Teg, vel Teg yw Arwyddyn y llyfr hwnn yn Neddfgrawn, W[m] M. Alpha & Jor: nrū, ad hunc Cod. emendatatissimum, examinavi ego W M. 1662."

[2] " Bod. yw Arwyddyn y llyfr hwñ yn Neddfgrawn W.M. am ei fod gynt yn eiddo Ed. ap Rog. Eitun o Bodyllyn ", yn llaw William Maurice ar dud. 1 o Peniarth 34. " Totum comparavi ego W.M. cum nr̄o Lib. Jor. 1663." (tud. 63).

[3] Credaf mai *Beba* oedd enw William Maurice ar Peniarth 36b, nid *Beta* fel y dywed Dr. Evans (*Rep.* i. 369); gweler y rhestr o " marks & notes " ar ddiwedd yr " Alphabetarium " yn Wynnstay 12.

[4] Gweler Llansteffan 74 a Panton 17, lle y ceir copïau o rannau o'r llawysgrif honno, y naill gan Moses Williams, a'r llall gan Ieuan Fardd.

ff. 289v–336v "Lap" (Peniarth 256).
337–73r "Morg" (Peniarth 37).
374r–91r "Cyn".
391v "Ex membran. ad Morg."
392r–5v "Lib. Teg"—gweler nodyn (392r) "Yr un yw'r lL. Teg ac Alpha ac Jor. o ddieithyr yr hynn sydd yn canlyn ex pag. 110 vsq̄ ad pag. 119 ibid."
396r–404r, 405r–90r "Lib. Pomf." (Peniarth 259b). Yn ôl nodyn William Maurice yn Peniarth 259b, yn 1663 y copïwyd hwn.
491r–7v "Lib. Lew."
498–518 "Befol."
519–29r Cwynion, o lyfrau Bedo (~~Peniarth 36a~~) a Kalan.
530r–4r "Continuat. Beta . . . o arfer Cyfr. Hywel".
536–44, a 46 o ddalennau wedyn heb eu rhifo: "Leges Hoelianae ex vetustiss° Exemplar: membranaceo per Guilhelmum mauricium λansillinnens. fideliter transcript: Anno Domini. M.DC.LXII" (testun Lladin Peniarth 28).

Cymerodd William Maurice dri phrif destun—*Alpha*, *Ior*, a *Beta*—a dosbarthodd gynnwys y llawysgrifau ereill o'u cwmpas megis; ceir ym mhob un bron o'r llawysgrifau Hengwrt a welodd ef nodyn yn ei law tebyg i hwnnw a ddyfynnwyd uchod o Peniarth 32, neu i hwn o Peniarth 259a: "Befol yw Arwyddyn y Llyfr hwñ yn Neddf-grawn W.M. Mae yn un-rhyw agos a Beta, ond ei fod yn folio. Examinat' ad n̄ram Betam reliqua transcribuntur, viz. quae ibi delsiderabant[1]" (*Rep.* i. 1074). Bu William Maurice yn ofalus iawn i nodi'r mannau lle'r oedd trefn y llawysgrifau ereill yn wahanol i eiddo'r prif destun; a phan fyddai ymadrodd yn y testun yn dywyll, nodai bob ffurf arni, er na ddilynai orgraff y llawysgrifau fel rheol. Er enghraifft, lle y mae gan destun *Alpha* (62v) "dyaspat v̇wch annv̇ven", mae ef yn codi ar y ddalen gyferbyn y ffurfiau "diaspad uchawn", "uchannwn", "Diaspad echanwfyn", "Diaspad vch Anufyn" a "Dias. uch Advan" o wahanol lawysgrifau. Gwelir felly iddo osod sylfaen dda i adeiladu testunau'r cyfreithiau arni. Wedi ei ddydd ef, aeth y Deddfgrawn gyda'i lawysgrifau ereill i lyfrgell Llanforda; gwelodd Moses Williams ef yno, oblegid sgrifennodd nodyn ar ff. 289r o'r ail gyfrol, yn cyfeirio at un o'r llawysgrifau a gymarasai William Maurice, "The Original is at Hengwrt. And a Copy of it in Merton College Library Oxon. 1728." Pan fu Moses Williams yn Llanforda yn 1728, yr oedd testun *Leges Wallicae* Wotton eisoes wedi'i argraffu—gallai Moses Williams gyfeirio at dudalennau'r argraffiad wrth gopïo ei "Variantes Lectiones & Additamenta Ex Codd MSS. Gul. Williams Baronetti" yn Llansteffan 74 yn y flwyddyn honno. Pe cawsai Moses Williams neu Wotton afael ar y Deddfgrawn yn gynharach, dichon y gallasent fanteisio ar ddosbarthiad William Maurice i roi gwell trefn ar eu testun hwy. Dyna, y mae'n debyg, a wnaeth Aneurin Owen; mae ei *Dull Gwynedd* yn cyfateb i gyfrol gyntaf William Maurice (ac er mai Peniarth 29 yw ei destun ef, fe'i gesyd yn nhrefn Cotton Titus D. II, sef ffynhonnell eithaf *Alpha*), a rhannodd ef lawysgrifau'r ail gyfrol i ddau ddosbarth, *Dull Dyfed* a *Dull Gwent*. Cafodd yntau fenthyg y ddwy gyfrol, a phump o lawysgrifau cyfraith ereill, a oedd erbyn hynny wedi'u symud i Wynnstay; ei waith ef yn eu cadw cyhyd a'u hachubodd rhag eu llosgi yn nhân 1858. Yn ôl pob tebyg, ni ddychwelsant i'r llyfrgell pan ddanfonwyd hwy'n ôl i Wynnstay yn 1851,[1] a chedwid y saith gyfrol gyda'i gilydd mewn bocs yn y *muniment room*.

DAFYDD JENKINS.

[1] Gweler y copi (ar ddalen rydd yn Wynnstay 10) o'r derbynneb a roddwyd i Aneurin Owen amdanynt.